Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
–
Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru

–

SeneddClimate@senedd.walesSeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

7 Tachwedd 2023

Annwyl Mark

Cefais lythyr gennych, dyddiedig 5 Gorffennaf 2023, yn ymwneud â'r ohebiaeth rhwng y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Trafnidiaeth Cymru, ac eraill ynghylch caffael cerbydau rheilffyrdd gan Drafnidiaeth Cymru.

Yn eich llythyr, roeddech yn awgrymu y dylai'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith graffu ar y materion hyn ochr yn ochr â materion polisi ehangach. Roedd eich Pwyllgor, meddech hefyd, yn cadw'r hawl i graffu ar Drafnidiaeth Cymru mewn perthynas â materion sy'n ymwneud yn benodol â chylch gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus os yw'r Pwyllgor yn teimlo bod rhagor o faterion i ymdrin â nhw. Gan hynny, roeddwn yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol rhoi gwybod i chi am y camau nesaf y mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn bwriadu eu cymryd yn y maes polisi hwn.

Yn ddiweddarach yn ystod y tymor hwn, bydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn ymgymryd â darn manwl o waith yn ymwneud â'r rheilffyrdd. Bydd y gwaith yn cael ei wneud dros dri chyfarfod. Bydd y cyntaf yn canolbwyntio ar glywed gan randdeiliaid a grwpiau teithwyr, gan gynnwys cynrychiolwyr Transport Focus, Rail Future Wales, ac eraill. Bydd yr ail gyfarfod yn cynnwys ein sesiwn graffu flynyddol gyda Thrafnidiaeth Cymru, pan fyddwn yn trafod swyddogaethau a chyfrifoldebau'r corff. Yn olaf, bydd y Pwyllgor yn cynnal sesiwn graffu yn ymwneud â materion trafnidiaeth gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd. Bydd y sesiynau gyda Thrafnidiaeth Cymru a'r Dirprwy Weinidog yn cynnwys craffu ar wasanaethau rheilffyrdd fel rhan o'r ymchwiliad.

Rydym yn bwriadu cyflwyno adroddiad ar ein gwaith ddechrau 2024. Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn cynnwys argymhellion i Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru. Byddwn yn sicrhau eich bod yn

cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau a bod unrhyw faterion sy'n ymwneud â chylch gorchwyl y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn cael eu dwyn i'ch sylw fel rhan o'r broses hon.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.